# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 03 Tachwedd 2025

## SL(6)658 – Rheoliadau Cyfrifyddu Carbon (Cymru) (Diwygio) 2025

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o gyfres o reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") a elwir yn gyffredin yn Rheoliadau Newid Hinsawdd (Cymru) 2025.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyfrifyddu Carbon (Cymru) 2018 ("y prif Reoliadau").

Mae Rhan 2 o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyrraedd targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae'r targedau a osodwyd yn cyfeirio at "gyfrif allyriadau net Cymru", a ddiffinnir yn adran 33 o Ddeddf 2016. Mae'r cyfrif hwn yn cynnwys y nwyon tŷ gwydr a gaiff eu hallyrru'n uniongyrchol yng Nghymru, a gall hefyd gynnwys unedau carbon cymwys sydd wedi'u masnachu. Mae uned garbon yn fesuriad sy'n disgrifio lleihad mewn allyriadau neu gamau i dynnu allyriadau o'r atmosffer o ganlyniad i brosiectau a gynlluniwyd i gyflawni hyn. Gall gwlad B brynu uned garbon a gynhyrchir gan brosiect yng ngwlad A, a gall gwlad B ddefnyddio'r uned honno i helpu gwlad B i gyrraedd ei thargedau ar gyfer lleihau allyriadau.

Diffiniodd Rheoliad 3 o'r prif Reoliadau "uned garbon" at ddibenion Rhan 2 o Ddeddf 2016. Mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diweddaru'r diffiniad hwnnw.

Fel sy'n ofynnol o dan adran 49 o Ddeddf 2016, mae Gweinidogion Cymru wedi cael cyngor gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, ac wedi ystyried y cyngor hwnnw, cyn gwneud y Rheoliadau hyn.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:**

**Yn dod i rym ar:** 05 Rhagfyr 2025